

Mark Drakeford AC

Y Prif Weinidog

21 Tachwedd 2019

Aildrefnu'r sesiwn pan fyddwch yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Annwyl Mark,

Diolch i chi am eich llythyr ar 8 Tachwedd 2019 yn gofyn i aildefnu'r sesiwn pan fyddwch yn ymddangos gerbron y Pwyllgor, a gynlluniwyd yn flaenorol ar gyfer 9 Rhagfyr 2019.

Rydym yn gallu derbyn eich cais, a hoffem eich gwahodd i ymddangos ger ein bron yn ein cyfarfod cyntaf yn dilyn toriad y Nadolig, sef 6 Ionawr 2019.

Yn eich llythyr, gwnaethoch gyfeirio at etholiad cyffredinol y DU a'i effaith ar y gwaith o lunio datblygiadau yn y dyfodol mewn perthynas â Brexit. Deallaf ei bod yn anochel y bydd hyn yn effeithio ar waith paratoi Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit. Oherwydd hyn, byddwn yn gwerthfawrogi pe bydech yn rhoi diweddariad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ynghylch gwaith paratoi Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit ers i Senedd y DU gael ei diddymu. Yn benodol, a allwch amlinellu:

- sefyllfa bresennol cysylltiadau rhynglywodraethol ar lefel Penaethiaid y Llywodraeth a'r Gweinidogion; a'r
- cynnydd a wnaed o ran y rhaglen fframweithiau cyffredin ledled y DU, gan gynnwys a fydd y gwaith rhwng swyddogion yn parhau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 6 Rhagfyr 2019, er mwyn caniatáu i aelodau'r Pwyllgor drafod eich ymateb cyn toriad y Nadolig.

Yn gywir



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

✉ SeneddMADY@cynulliad.cymru

☎ 0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

✉ SeneddEAAL@assembly.wales

☎ 0300 200 6565